

**Camau Cyntaf Cadarnhaol: Mentrau laith Cymru yn Croesawu
Datganiad Polisi y Prif Weinidog ar yr Iaith Gymraeg**

Mae Mentrau laith Cymru yn croesawu'r cyhoeddiadau o gefnogaeth ychwanegol tuag at y Gymraeg a wnaed heddiw gan y Prif Weinidog ar lawr y Senedd. Mae'r adnoddau ychwanegol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned yn galonogol, ac mae Mentrau laith Cymru yn gweld hwn fel cam pwysig ymlaen tuag at gynyddu'r buddsoddiad yn y Gymraeg dros y tymor hir.

Yn ystod ei ddatganiad fe ddywedodd y Prif Weinidog bod "gwaith y Mentrau laith yn hollbwysig" fel mudiadau sy'n gweithredu i gryfhau'r Gymraeg yn eu cymunedau. Mae'r Prif Weinidog hefyd yn cyfaddef bod y Gymraeg yn dal i wynebu "heriau anodd a chymhleth."

Mewn ymateb i ddatganiad y Prif Weinidog dywedodd llefarydd ar ran Mentrau laith Cymru: "rydyn ni'n croesawu'r hyn a ddywedwyd gan y Prif Weinidog heddiw. Mae ei sylwadau yn cadarnhau bod y Mentrau laith yn parhau i fod yn bartneriaid allweddol y Llywodraeth" Ychwanegodd "cytunwn hefyd â'r Prif Weinidog fod y Gymraeg yn wynebu heriau difrifol a niferus sy'n ymwneud â phob agwedd ar fywyd cymunedol, ac mae angen i'r gefnogaeth a'r buddsoddiad yn y Gymraeg barhau a thyfu dros y tymor hir er mwyn cryfhau seiliau'r iaith yn ein cymunedau."

Mae datganiad y Prif Weinidog yn dilyn sawl adroddiad ac ymgynghoriad a gynhaliwyd dros y 18 mis diwethaf mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, gan gynnwys adroddiad a gomisiynwyd gan y Llywodraeth ar waith y Mentrau laith. Yn eu hymateb cyhoeddus i'r adroddiad hwnnw a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014 mae'r Mentrau laith yn datgan eu gweledigaeth a'u hawydd i ddatblygu a chryfhau er mwyn ehangu ar eu gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith gymunedol, gan nodi bod angen £4.8m arnynt dros y tair blynedd nesaf. Ychwanegodd llefarydd y Mentrau "rydym yn ystyried y datganiadau a wnaed gan y Prif Weinidog heddiw - gan gynnwys datganiad o gyllid ychwanegol o £750,000 i'r Mentrau laith dros y ddwy flynedd nesaf - fel camau cyntaf holl bwysig y mae angen i'r Llywodraeth eu cymryd tuag at weithredu'n gadarn er budd y Gymraeg ac mae'r Mentrau eisiau parhau i chwarae rhan ganolog yn y broses o ddatblygu seiliau cryfach i'r Gymraeg yn y dyfodol."

- DIWEDD -

Cyswllt y Wasg
Emily Cole
01443 493715 / 07977 892023
emily@mentrauliaith.org

Gwybodaeth am y Mentrau Iaith

- Mae 23 Menter Iaith yng Nghymru
- Mentrau Iaith Cymru yw'r mudiad cenedlaethol sy'n cefnogi gwaith y Mentrau Lleol
- Mae gan y Mentrau dros 300 o aelodau staff yn genedlaethol, 1,300 o wirfoddolwyr, ac yn cynnal 13,000 o weithgareddau cymunedol i 160,000 o gyfranogwyr bob blwyddyn.
- Mae'r Mentrau Iaith yn gweithredu mewn gwahanol feysydd yn ôl anghenion a blaenoriaethau ieithyddol lleol, gan gynnwys datblygu economaidd, chwarae, hamdden, addysg gymunedol, mentrau cymdeithasol, canolfannau Cymraeg, cefnogaeth i deuluoedd, dysgwyr y Gymraeg a gwaith ieuenctid.